# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

## EIN (2) 11-06(p3)

### Dyddiad: 7 Rhagfyr 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Y Senedd, Bae Caerdydd
### Teitl: Adolygiad o'r Grant Diogelwch Ffyrdd Lleol 2000 – 2006

**Diben:**

Dweud wrth y Pwyllgor am effaith y Grant Diogelwch Ffyrdd Lleol o ran cynlluniau a weithredwyd a'r gwrthdrawiadau/anafusion gafodd eu hatal.

**Y Cefndir:**

Cyhoeddwyd y Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd i Gymru yn 2003, ac roedd yn gosod y targedau canlynol ar gyfer lleihau nifer yr anafusion erbyn 2010 o'u cymharu â chyfartaledd 1994-1998:

- gostyngiad o 40% yn nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol;
- gostyngiad o 50% yn nifer y plant sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol;
- gostyngiad o 10% yn nifer y bobl sy'n dioddef mân anafiadau am bob 100 miliwn cilomedr a deithiwyd mewn cerbyd.

Roedd Adran 39 Deddf Traffig Ffyrdd 1988 yn gosod gofyniad statudol ar bob awdurdod lleol i ddarparu gwasanaeth diogelwch ar y ffyrdd. O dan Adran 40 y Ddeddf, rhoddwyd pwer i'r Ysgrifennydd Gwladol ddyrannu'r arian a ddarparwyd gan Senedd Llundain i dalu am gostau awdurdodau lleol wrth iddynt roi mesurau diogelwch ar y ffyrdd ar waith, ac o dan Adran 88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, rhoddwyd y pwer i roi grantiau arbennig i awdurdodau lleol. Fe wnaeth Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1 Gorffennaf 1999 drosglwyddo'r pwerau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cyflwynwyd y Grant Diogelwch Ffyrdd Lleol yn 2000 fel ymateb i bryderon dros y diffyg arian uniongyrchol oedd ar gael ar gyfer cynlluniau diogelwch ar y ffyrdd, ac effaith hyn ar nifer y damweiniau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi'r grant i awdurdodau lleol yn flynyddol fel cyfraniad at y gwaith o ddod o hyd i atebion i broblemau diogelwch ar y ffyrdd yn eu hardaloedd unigol.

Ers cyflwyno'r Grant Diogelwch Ffyrdd Lleol yn 2000, mae tua £43 miliwn wedi ei roi i awdurdodau lleol. Roedd hyn yn cynnwys y Grant "Gyrru Arafach" o £1.5 miliwn yn 2002/03 a'r £2.1 miliwn a roddwyd ar gyfer hyfforddiant i blant sy'n cerdded, cyn cyflwyno grant ar wahân o 2005-06 ymlaen.

Mae'r swm blynyddol wedi cynyddu, o £3.66 miliwn yn y flwyddyn gyntaf i £7.44 miliwn yn 2006/07. Mae'r grant yn ychwanegol at gyllidebau priffyrdd a pheirianneg traffig yr awdurdodau lleol.

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiadau blynyddol ar y prosiectau y maent wedi defnyddio'r grant ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn. Cyflwynir ystadegau ar wrthdrawiadau ac anafusion cyn ac ar ôl gweithredu mesurau peirianyddol, ynghyd â gwybodaeth am werthuso mentrau addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd.

Comisiynwyd Halcrow Group Ltd i goladu a dadansoddi cyflwyniadau'r awdurdodau lleol yn 2006 a chyhoeddi'r canfyddiadau mewn adroddiad technegol. Hefyd, gwnaed newidiadau i'r drefn casglu data er mwyn sicrhau y byddai modd cynnal gwerthusiadau cadarn o 2006 ymlaen.

Mae adroddiad terfynol Halcrow yn disgrifio'r math o gylluniau a roddwyd ar waith yn 2005-06 ac effeithiolrwydd y mesurau peirianyddol a gyflwynwyd rhwng 2000 a 2005. Mae enghreifftiau o arfer da wedi'u cynnwys fel y gall awdurdodau lleol gyfeirio atynt yn y dyfodol, yn ogystal ag awgrymiadau ar sut i wneud y mwyaf o effeithiolrwydd y grant a'r gweithdrefnau monitro cysylltiedig. Amgaeir adroddiad technegol yn Atodiad A.

## Canfyddiadau'r Gwerthusiad

## Peirianneg

Gwariwyd 72% o grant 2005/06 ar ystod eang o gynlluniau peirianyddol. Roedd y cynlluniau'n cynnwys mesurau fel gostegu traffig, parthau 20 mya, croesfannau i gerddwyr, wynebau atal sgidio a gwella ffyrdd.

Mae 390 o gynlluniau peirianyddol wedi cael eu gwerthuso. Gwariwyd dros £15,000 ar bob un ac fe'u rhoddwyd oll ar waith rhwng 2000 a 2005. Dylid nodi mai dim ond gwerth blwyddyn o ddata am ddamweiniau sydd ar gael ar gyfer rhai o'r cynlluniau, ac yn ddelfrydol mae angen gwerth tair blynedd o ddata o'r dyddiad y cafodd y cynllun ei gwblhau er mwyn gallu cwblhau asesiad llawn o'u heffeithiolrwydd. Mae'n bwysig, felly, bod mwy o waith monitro'n cael ei wneud yn y blynyddoedd sydd i ddod. Y cynlluniau a lwyddodd orau i leihau y nifer a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol oedd parthau neu gyfyngiadau 20 mya, cylchfannau bach, gwella gwelededd a goleuadau traffig.

Gyda'i gilydd, roedd y cynlluniau peirianyddol yn dangos 58% o leihad ar gyfartaledd bob blwyddyn yn nifer y gwrthdrawiadau a achosodd anaf personol, sy'n gyfwerth â 372 o wrthdrawiadau ar gyfartaledd. O ganlyniad, gwelwyd 90 (hy 65%) o leihad yn nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol bob blwyddyn ar gyfartaledd.

Mae'r 'Highways Economics Note No.1' a gyhoeddir bob blwyddyn gan yr Adran Drafnidiaeth yn amcangyfrif gwerth atal gwrthdrawiadau ar y ffordd ar gyfartaledd. Mae'r lleihad yn nifer y gwrthdrawiadau a gyflawnwyd gan y cynlluniau a werthuswyd yn gyfwerth ag arbed £32 miliwn i'r gymuned.

## Addysg, Hyfforddiant a Chyhoeddusrwydd

Fe wnaeth yr awdurdodau lleol roi'r 28% o grant 2005-06 oedd yn weddill i gynlluniau addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd. Ers 2005, mae'r canllawiau a gyhoeddir gyda'r grant yn nodi bod rhaid dyrannu o leiaf 20% o'r arian yn y modd hwn er mwyn annog dull holistaidd o leihau gwrthdrawiadau a anafusion. Mae gwario 28% ar addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd yn cymharu â gwariant o 25% yn 2004/05 a 17% yn 2003/04.

Mae'n amlwg bod awdurdodau lleol Cymru wedi defnyddio'r grant i ariannu ystod eang o weithgareddau addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd. Y cynlluniau mwyaf poblogaidd oedd:

- Y Clybiau Traffig i Blant (ar gyfer disgyblion cyn oed ysgol)
- 'Pass Plus' (i yrrwyr sydd newydd basio'u prawf gyrru)
- Rhaglenni Swyddog Iau dros Ddiogelwch ar y Ffyrdd (ysgolion cynradd)
- Theatr mewn Addysg (ysgolion a grwpiau ieuenctid o bosib)
- Masgot Diogelwch ar y Ffyrdd (disgyblion ysgol a'r cyhoedd)
- Mentrau ar gyfer pobl cyn iddynt ddechrau gyrru ee 'MegaDrive'.

Mae Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd i Gymru yn pennu "Agwedd Newydd tuag at Addysg Diogelwch ar y Ffyrdd" sy'n cynnwys newid ymddygiad defnyddwyr ffyrdd drwy ddadansoddi'r sgiliau sydd eu hangen ar blant sy'n cerdded a beicwyr er mwyn datrys problemau'n ymwneud â thraffig. Mae'r gwerthusiad yn dangos yn glir bod awdurdodau lleol yn buddsoddi cryn dipyn mewn targedu plant ysgol, yn enwedig plant o oed meithrin a chynradd.

Dim ond 7% o'r gwariant addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd a ddyrrannwyd i ysgolion uwchradd. Ym Mhrydain, mae nifer y plant sy'n marw neu'n dioddef anafiadau difrifol ar ei uchaf ymhlith plant ym mlynyddoedd cynnar addysg uwchradd, sy'n awgrymu y byddai'n addas rhoi mwy o bwyslais ar y grwp hwn.

Oherwydd yr amrywiaeth yn y math o gynlluniau a'r ffordd y maent yn cael eu cynnal, mae angen i awdurdodau lleol werthuso cynlluniau addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd unigol. Yn 2005/06, fe wnaethant adrodd am amrywiaeth o ddulliau gwerthuso, gan gynnwys cofnodi'r niferoedd oedd yn cymryd rhan, niferoedd oedd yn ymweld â gwefan, sylw gan y wasg a thystiolaeth lafar. Er mwyn eu helpu i wella'u dulliau o fonitro, tynnwyd eu sylw at ddogfen gan yr Adran Drafnidiaeth, "Guidelines for Evaluating Road Safety Education Interventions". Hefyd, mae adroddiad Halcrow yn nodi esiamplau o arfer da.

Cyfrannu at Gyflawni Targedau Cenedlaethol ar gyfer Lleihau Anafusion:

Mae'n anodd canfod canlyniadau cadarn ynghylch effaith y grant diogelwch ar y ffyrdd ar niferoedd anafusion cenedlaethol oherwydd y rhesymau canlynol:

- Er mwyn i ni alli rheoli'r broses o werthuso'r grant, dim ond data am wrthdrawiadau ac anafusion ar gyfer cynlluniau o £15,000 neu fwy gafodd eu monitro. Ni roddwyd ystyriaeth i gynlluniau a gostiodd lai na hynny:

- Er nad oes amheuaeth bod addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd yn cyfrannu at leihau anafusion, nid yw'n bosib asesu'u heffaith yn ystadegol.

- Mae'r grant yn cael ei weinyddu a'i fonitro o fewn terfynau'r flwyddyn ariannol, ond caiff targedau anafusion a'r patrymau perthnasol eu seilio ar flynyddoedd calendr.

Yng Nghymru, cafodd 211 yn llai o bobl eu hanafu yn ddifrifol neu eu lladd yn 2005, o'i gymharu â ffigur 2004, sef 1537. Cyfrifwyd bod 31 o bobl yn llai wedi cael eu hanafu'n ddifrifol neu eu lladd ar gyfartaledd yn flynyddol oherwydd y cynlluniau peirianyddol yn 2004-05. Mae'n deg dod i'r canlyniad, felly, fod 15% o'r lleihad yn 2005 wedi digwydd oherwydd cynlluniau peirianyddol mwy a arianwyd gan y Grant Diogelwch ar y Ffyrdd. Mae gwir effaith y grant yn debygol o fod dipyn yn uwch oherwydd effaith ychwanegol y cynlluniau peirianyddol a gostiodd lai na £15,000, a chyfraniad cynlluniau addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd.

## Argymhellion:

Dyma'r argymhellion, yn seiliedig ar ganfyddiadau allweddol yr adroddiad:

- Dylid gwella taenlenni monitro Llywodraeth y Cynulliad ymhellach er mwyn annog cysylltiadau gwell rhwng cynlluniau peirianyddol a chynlluniau addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd;

- Dylai awdurdodau lleol barhau i roi 20% i gynlluniau addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd;

- Dylai awdurdodau lleol geisio cynnal mwy o gynlluniau diogelwch ar y ffyrdd ar gyfer plant oed uwchradd cynnar;

- Dylai awdurdodau lleol ddatblygu ffyrdd mwy cadarn o werthuso cynlluniau addysg, hyfforddiant a chyhoeddusrwydd;

- Dylid parhau i fonitro data gwrthdrawiadau ac anafiadau er mwyn tynnu sylw at effeithiolrwydd gwahanol fesurau a darparu canllawiau ar gyfer rhaglenni'r dyfodol;

- Y dylid rhannu canfyddiadau gwerthusiad Halcrow ag awdurdodau lleol Cymru er mwyn hyrwyddo arfer da.

**Alison Jones**
**20/10/06**